CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**29.04.21**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *NODIADAU*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; TAJ; RJ; DP; GW; JOJ; DL; EO;<br>**Ymddiheuriadau:** IW; DM; AR; BJ;<br>**Mynychu:** SWR ; |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd EO ddiddordeb yn Eitem 7: Materion Cynllunio |
| **3** | **Cofnodion 25.03.21**<br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 25 Mawrth 2021 fel rhai cywir (DP/TAJ) yn unol ar ychwanegu dan Materion 5 Cyllid -<br>• Cyflog y Clerc i'w adolygu pob mis Medi<br>b) Materion yn codi<br>Sedd Wag.<br>Adroddodd y Clerc bod Donna Mlynarczyk wedi cysylltu i fynegi pryder am fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd gan ei bod wedi derbyn swydd newydd fydd yn golygu llawer o drafeilio. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a DM yn cynnig iddi barhau i fod y Gynghorydd a derbyn papurau perthnasol a chyflwyno unrhyw fater/sylwadau drwy'r Clerc os na fydd yn gallu presenoli.<br>Gosod mainc yn y Sgwar<br>DW/TAJ wedi gwneud ymweliad safle a dwy fainc pwrpasol wedi eu harchebu.<br>Lightsource – Fferm Môn Solar<br>Adroddod y Clerc bod trefniadau ar y gweill i'r Cwmni drefnu cyfarfod ZOOM uniongyrchol gyda CC Llan i drafod y brosiect. Mae Cyngor Cymuned Llanfechell am ymuno a'r cyfarfod. |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 29.04.21 |
| 4 | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**GW** – cyfeiriodd at waith mae Arwyn Owen a Mônlith yn ei wneud ar Ben y Foel. Mae'r gwaith yn golygu tyrchu am arteffactau hanesyddol. Annogwyd pawb i ymweld y safle a chefnogi'r fenter gyffrous hon.<br><br>**DP –** Dymunodd ddiolch i Bethan Jukes am ei gwaith da yn rhannu te prynhawn gyda thrigolion dros 70 yn y dalgylch a rhai hyny sy'n fregus. Nododd bod ansawdd y bwyd, gyflenwyd gan Carolyn Owen Caffi Steshion o'r radd flaenaf.<br><br>**EO –** Nododd bod y Siop Sglodion ar fin ail-agor a bod y perchennog wedi ei holi am osod byrddau tu allan i'r Siop. Cytunwyd mai caniatad CSYM sydd ei angen gan mai nhw yw perchennog y safle.<br><br>**RJ** – Awgrymodd y dylid gofyn am ddrych ger croesfan Llwyn Drain er mwyn gwella gwelededd. Clerc i gysylltu a CSYM<br><br>- Nododd bod y ffyn bambw a'r gorchuddion plastic wedi ei tynnu oddi ar y coed bach yng Nghae Gofeb. Dywedodd ei fod wedi eu hail-osod. Clerc i gysylltu a Bella Kennet i ddwyn hyn i'w sylw.<br><br>**DW** – adroddodd am geir wedi eu parcio yn Stryd Blucher a char arall ger Capel Tabernacl gyda phlatiau Sbaeneg – Clerc i adrodd i'r PCSO<br><br>**TAJ –** cyfeiriodd at lori fawr wedi ei pharcio yn Stryd Goedwid a char arni ac y rhywstro defnydd o'r pafin – Clerc i adrodd i'r PCSO<br><br>- Cyfeiriodd at gwyn am ddiffyg llinellau atal traffig ar groeslon ger Tafarn y Botel sydd yn arwain i gyfeiriad Llanddeusant – Clerc i adrodd i CSYM<br><br>**JAJ** – adrododd ar ymweliad safle gan swyddog Dwr Cymru yn dilyn derbyn bil enfawr i'r Clwb Peldroed. Ymddengys bod problem gyda'r mesuryddion yn yr ardal a bydd datrysiad buan yn golygu ad-daliad i CC Llan.<br><br>- Cyfeiriodd at y Byrddau Stori sydd wedi eu gosod yn yr ardal – Clorach, Stesion gan brosiect Calon Gudd Menter Môn. Cytunwyd i'r Clerc sgwennu at Jackie Lewis Arweinydd y brosiect i longyfrach aelodau'r brosiect ar y gwaith diddorol ac addysgiadol hwn.<br><br>- Nododd bod gwaith pellach ar y gweill i wella, cynnal a chadw y Clwb Peldroed.<br><br>Cyfeirwyd hefyd at broblem gyda ddefaid yn crwydro i'r Fynwent Gyhoeddus ac yn creu difrod. Nodwyd bod gwaith trwshio ar y giat mochyn wedi digwydd yn barod a bod hyn wedi gwella'r sefyllfa. |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | Cytunwyd hefyd i ofyn i RPO Williams chwalu'r twmpath pridd yng nghornel bellaf y Fynwent i greu ardal wastad ger y wal terfyn. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Mawrth**<br>Archebu dwy fainc i'r Sgwar – Cwmni No Butts - £1068 (hyn yn cynnwys TAW)<br><br>Bwrdd Dwr Lawnt Fowlio - £24.10<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>Bwrdd Dwr – cyflenwad Fynwent Gyhoeddus – £9.38<br>IG Jones & Co – gwaith PAYE am 2020 - £204<br><br>Cafwyd diweddariad gan y Clerc am y sefyllfa ariannol gyfredol.<br><br>**Taliadau Blynyddol**<br><br>Cytunwyd i gefnogaeth ariannol o £50 i'r canlynol ar gyfer 2020:-<br>• Yr Arwydd<br>• Yr Urdd - Ynys Môn<br>• Hobis Ynys Môn<br>• Ambiwlans Awyr Plant Cymru<br>• Radio Ysbyty Gwynedd<br>• Macmilan - Ynys Môn |
| **7.** | **Materion Cynllunio**<br><br>**Ceisiadau**<br>**FPL/2021/81** – Sarn Fadog  - dim wrthwynebiad<br><br>**FPL/2021/82 –** Geirn Llannerchymedd – dim gwrthwynebiad<br><br>**HHP/2021/142** – Gwyndy Llannerchymedd – dim gwrthwynebiad<br><br>**FPL/2021/71 –** Bryn Gollen Newydd – dim gwrthwynebiad<br>.<br>**CONS/2021/3 –** gwaredu ffôn cyhoeddus yn Sgwar y farchnad<br>Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i weithredu'r gwaredu dan yr amod bydd gwaith adfer priodol yn dilyn. |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| **8** | **Unrhyw Fater Arall**<br>Dim i law<br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.32* |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383